



5-10 munud

Amcan a Ffocws Cerddorol

Datblygu gwaith tîm
drwy wrando a gwylio;
gwneud sŵn gyda dŵr;
dysgu sut mae addasu
sŵn

Offerynnau

Oes – unrhyw
offerynnau sydd ar gael
yn eich ysgol

Hygyrchedd

Mae'r cynllun gwrs
yma yn addas i
ddisgyblion sydd ag
anawsterau clyw.

1. Gweithgaredd i Gynhesu

Cuddio a Chwilio!

Bydd angen eitem fach arnoch chi ar gyfer y gêm yma, rhywbeth fel cragen. Dangoswch yr eitem i'r plant a rhoi cyfle i bawb weld sut mae'n edrych.

Dewiswch un plentyn i fynd allan o'r ystafell (neu i guddio ei lygaid) am ychydig o eiliadau. Tra bydd allan o'r ystafell (neu'n cuddio ei lygaid), gofynnwch i blentyn arall guddio'r eitem rhywle yn yr ystafell. Gwnewch yn siŵr bod gweddill y dosbarth yn gwybod lle mae'r eitem – ond dydyn nhw ddim yn cael dweud!

Gofynnwch i'r plentyn ddod yn ôl i mewn i'r ystafell ddosbarth.

Dylai gweddill y dosbarth wneud sŵn 'laa' tra bydd y plentyn yn dod o hyd i'r eitem. Os bydd y plentyn yn agos at yr eitem, dylai'r dosbarth ganu'n gryfach. Os bydd y plentyn yn bell, dylai'r dosbarth ganu'n dawelach.

Drwy wrando ar weddill y dosbarth, dylai'r plentyn allu dod o hyd i'r eitem.

Amrywiadau: Newid y traw o isel i uchel pan fydd y plentyn yn agos at yr eitem; defnyddio offerynnau yn lle lleisiau.





 10-15 munud

2. Sonic Explorers

Ystafell Wely/Dan y Dŵr



Gwylwch Bennod 4 *Sonic Explorers* gyda'ch gilydd.

Gofynnwch i'r plant ddisgrifio'r seiniau roedden nhw'n gallu eu gweld/clywed yn y fideo. Er enghraifft:

- Ffôn yn *bipio*
- Diferion glaw yn *pitran-patran*
- Tylluan yn *hwtian*
- Dŵr yn *byrlymu*
- Gobennydd yn *siffrwd*
- Medalau yn *janglo*

Os nad ydych chi'n siŵr o'r arwyddion ar gyfer rhain, gallwch eu gweld yng ngeiriadur fideo BSL www.signbsl.com.



Gofynnwch gwestiynau i'ch dosbarth am y fideo, fel:

- Ydych chi'n gwybod beth ydy llong danfor?
- Ydych chi erioed wedi clywed morfil? Sut sŵn ydych chi'n meddwl mae'n ei wneud?
- Allwch chi wneud sŵn tylluan?

Bydd y cwestiynau hyn yn helpu'r plant i ddeall y byd ehangach. Drwy'r gweithgaredd hwn byddan nhw'n gallu adnabod a dynwared amrywiaeth o seiniau o amgylcheddau cyfarwydd ac anghyfarwydd.



20-30 munud



Bydd y gweithgaredd hwn yn annog y plant i arbrofi gydag un ffynhonnell sŵn (dŵr) mewn sawl ffordd. Byddan nhw'n gallu adnabod gwahaniaethau bach mewn sain fel traw (uchel ac isel) a dynameg (cryf ac ysgafn). Byddan nhw hefyd yn datblygu geirfa drwy ddisgrifio sŵn.

3. Prif Weithgaredd

Cerddoriaeth Dŵr

Ar gyfer y gweithgaredd hwn bydd angen i chi rannu eich dosbarth yn grwpiau o 4 i 6. Dylai pob grŵp gael cynhwysydd mawr o ddŵr, detholiad o gynwysyddion llai (fel poteli, cwpanau a blychau plastig caled), can dŵr (neu botel blastig gyda thyllau yn y gwaelod), llwyau a gwellt.

Gofynnwch i'r plant sefyll o amgylch y cynwysyddion o ddŵr ac egluro y byddwn yn defnyddio dŵr i wneud llawer iawn o seiniau gwahanol. (Efallai byddwch chi eisiau gosod rhai rheolau sylfaenol am ymddygiad ar y pwynt yma!)

Gofynnwch i'r plant 'Faint o seiniau gwahanol gallwn ni eu creu gyda dŵr?' a'u hannog i wneud cynifer o seiniau gwahanol â phosib gydag aelodau eu grŵp.

Gallai'r rhain gynnwys:

- Chwythu swigod drwy welltyn
- Sblasio gyda dwylo
- Swisio a llusgo llwy drwy'r dŵr
- Slochian drwy symud cynhwysydd o ddŵr o ochr i ochr
- Sŵn rhaeadr drwy dywallt dŵr o uchder
- Diferion 'glaw' drwy dywallt dŵr o gan dŵr
- Ysgwyd dŵr mewn potel

Gyda phob sŵn byddwch chi'n ei ddarganfod ac yn ei greu,

gofynnwch i'r plant:

- Ydy'r sŵn yna'n gryf neu'n ysgafn?
- Ydy'r traw yn uchel neu'n isel?
- Pa air byddech chi'n ei ddefnyddio i ddisgrifio'r sŵn yma?

Estyniad: Gallwch greu cyfansoddiad grŵp drwy ddefnyddio'r seiniau dŵr. Gofynnwch i'r plant weithio yn eu grwpiau a lluniadu eu cyfansoddiad ar ddarn o bapur. Awgrymwch i'r plant ddefnyddio siapiau gwahanol – er enghraifft, gallai seren gynrychioli sŵn rhaeadr, gallai diferyn gynrychioli glaw ac ati.



 5 munud

4. Diwedd y Wers

Taten Boeth Gerddorol

Bydd angen eitem fach arnoch chi ar gyfer y gêm yma, rhywbeth fel offeryn ysgwyd siâp wy.

Gofynnwch i'ch dosbarth eistedd neu sefyll mewn cylch. Tra bydd cerddoriaeth yn chwarae, dylai'r plant basio'r offeryn ysgwyd siâp wy o amgylch y cylch.

Pan fyddwch chi'n rhewi'r gerddoriaeth, rhaid i'r plentyn sy'n dal yr offeryn siarad am rywbeth a ddysgodd yn y dosbarth heddiw.

Ewch drwy'r gêm ychydig o weithiau eto.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Cymraeg

Gwyddoniaeth

The British fingerspelling alphabet



www.ndcs.org.uk

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales no. 1032023 and in Scotland no. SC004377.
© National Deaf Children's Society October 2017 | 013346